Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

# CRONFA DIWYLLESIANT GWYNEDD
## CANLLAWIAU MANWL

Mae'r canllawiau isod wedi eu gosod i gyd-fynd gyda cwestiynau sydd wedi eu cynnwys yn Ffurflen Gais Cronfa Diwyllesiant Gwynedd

**MANYLION YR YMGEISYDD**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Prif sefydliad sy'n gwneud y cais | Rhowch enw'r sefydliad sydd yn cyflwyno'r cais. |
| 2. | Beth yw natur eich sefydliad | ❑ Sefydliad gwirfoddol neu gymunedol anghofrestredig (ond gyda Cyfansoddiad)<br>❑ Cwmni Di-elw<br>❑ Elusen Cofrestredig<br>❑ Sefydliad Corfforedig Elusennol (CIO neu SCIO)<br>❑ Cwmni Buddiannau Cymunedol (CIC)<br>❑ Corff statudol (Cynghorau Cymuned)<br>❑ Cwmni Preifat (trefnwyr digwyddiadau yn unig (Rhaid dangos tystiolaeth glir mae prif faes eich cwmni yw trefnu digwyddiadau) |
| 3. | Rhif y Cwmni / Elusen | Nodwch Rhif cwmni / elusennol y sefydliad os yn berthnasol. |
| 4. | Enw Cyswllt Arweiniol | Nodwch enw'r prif gyswllt sydd yn gweithredu ar ran y sefydliad a Teitl swydd o fewn y sefydliad. |
| 5. | Rhif Ffôn Cyswllt | Nodwch rhif ffon y gallwn ei ddefnyddio ar gyfer cysylltu a chwi i drafod unrhyw faterion yn ymwneud a'r cais. |
| 6. | Cyfeiriad e-bost a chyfeiriad gwefan | E-bost y prif gyswllt – fe fydd pob gohebiaeth parthed eich cais yn cael ei anfon i'r cyfeirid e bost a nodir yma.<br>Cyfeiriad gwefan. |
| 7. | Oes gan eich grŵp gyfrif banc yn ei enw sydd angen llofnod dau berson i awdurdodi taliad?<br><br>Enw trysorydd y grŵp neu'r person sy'n gyfrifol am gyllid:<br><br>Enw'r cyfrif:<br>Cyfeiriad (sydd yn gysylltiedig ar cyfrif):<br><br>Cod didoli:<br>Rhif cyfrif banc: | ❑ Oes ❑ Nag oes<br><br>Rhowch eich manylion cyfrif banc yma |
| 8. | Ydi eich grwp yn hawlio TAW | ❑ Yndi ❑ Nac ydi<br><br>Os nad yw eich sefydliad yn hawlio taw gallwch geisio am grant yn gynnwys y costau TAW. Os yw eich sefydliad yn hawlio TAW ni fydd modd cynnwys TAW eitemau fel rhan o'r cais. |

| | | |
|---|---|---|
| 9. | Beth yw prif weithgaredd ac amcanion eich sefydliad? | Disgrifiwch beth yw prif weithgaredd ac amcanion eich grŵp. (hyd at 150 gair) |
| 10. | Os ydych yn gweithio gyda phlant neu oedolion bregus, nodwch pa gamau a gymerir i'w diogelu | Dylid yma gyfeirio at unrhyw bolisi a threfniadau sydd mewn lle gan eich sefydliad i ddiogelu plant neu oedolion bregus. |

**GWYBODATEH AM Y PROSIECT/DIGWYDDIAD YR YDYCH AM I'R GRONFA ARIANNU**

| | | |
|---|---|---|
| 11. | Enw'r Prosiect / Digwyddiad | Nodwch enw'r prosiect / digwyddiad yr ydych am i'r gronfa ei ariannu. |
| 12. | Lleoliad y Prosiect / Digwyddiad | Nodwch ym mha ardal fydd y prosiect/digwyddiad yn weithredol gan gynnwys cod post . |
| 13. | Dyddiad Cychwyn y Prosiect / Digwyddiad | Dylid nodi yma y dyddiad yr ydych yn bwriadu cychwyn ar eich prosiect pe byddai'r cais yn llwyddiannus. (DD/MM/YYYY) |
| 14. | Dyddiad Gorffen y Prosiect / Digwyddiad | Dylid yma nodi y dyddiad yr ydych yn disgwyl cwblhau eich prosiect. (DD/MM/YYYY)<br>**Noder mae'n rhaid i bob cynllun sy'n cael ei ariannu drwy'r cronfeydd allweddol fod wedi eu cwblhau erbyn 31 Ionawr 2026, ac ni fydd modd cael estyniad wedi'r dyddiad yma.** |

**DISGRIFIAD O'R PROSIECT / DIGWYDDIAD**

| | | |
|---|---|---|
| 15. | Trosolwg o'ch Prosiect / Digwyddiad (hyd at 500 gair) | Dylech ym roi trosolwg o beth fydd eich prosiect gan hefyd gyfeirio at weithgareddau, prif nodau ac amcanion eich prosiect.<br><br>**AMCANION**<br><br>Dylid nodi yma:<br>• Manylion buddion cymunedol, cymdeithasol, a ieithyddol y gymuned.<br>• Manylion buddsoddiad a datblygiad yr economi leol.<br>• Manylion gwirfoddolwyr a chyfleodd cyfranogi i drigolion Gwynedd.<br>• Sut mae'r prosiect yn annog y gymuned i gymryd rôl mwy rhagweithiol o fewn yr ardal.<br>• Sut mae'r prosiect y gwella lleoliadau sy'n bwysig i gymunedau.<br>• Sut mae'r prosiect yn cynyddu cyfleoedd gwaith, datblygiad sgiliau ymhlith unigolion o fewn cymunedau a hybu cyfle cyfartal i bawb.<br>• Sut mae'r prosiect yn annog, gwarchod a chyfoethogi'r amgylchedd. |
| 16. | Pam bod angen y prosiect / digwyddiad yn eich hardal? Os yn berthnasol, nodwch sut ydych wedi ystyried cyrraedd | Dylech gyfeirio at unrhyw waith ymgynghori a rhoi tystiolaeth o angen y prosiect yn lleol yma. |

| | | |
|---|---|---|
| | cymunedau ar draws Gwynedd?<br>(hyd at 300 gair) | Nodwch sut rydych wedi ystyried cyrraedd cymunedau ar draws Gwynedd os yw'n berthnasol. |
| 17. | Pwy fydd yn elwa o'r prosiect / digwyddiad? (hyd at 150 gair)<br><br>Nodwch niferoedd (e.e. nifer fydd yn cymryd rhan, cynulleidfa, neu yn cael budd or gweithgaredd) | Yma dylech nodi pwy tu allan i'ch sefydliad fydd yn elwa o'r prosiect. |
| 18. | Nod 'Cronfa Diwyllesiant' Gwynedd yw: *"Cefnogi budd a lles i gymunedau, amgylchedd a busnesau Gwynedd trwy weithgareddau diwylliannol (Celfyddydau a threftadaeth), hamdden (chwaraeon, actif, iechyd a lles) a digwyddiadau."*<br><br>Sut mae eich prosiect / digwyddiadau yn cyfarch ar uchod. (hyd at 500 gair) | Dylech nodi yma sut mae eich cynllun yn cyfarch a nod a blaenoriaethau 'Cronfa Diwyllesiant'. |
| 19. | Sut mae eich prosiect / digwyddiad yn mynd i sicrhau cynaliadwyedd y gweithgaredd i'r dyfodol a sut byddwch yn rheoli eich prosiect ac yn ei gynnal wedi i'r arian y grant ddod i ben? (Dywedwch wrthym beth yw'r cynllun hirdymor a sut fyddwch yn sicrhau cynaladwyedd eich prosiect) | Dywedwch wrthym sut byddwch yn cynnal eich prosiect I'r dyfodol. |
| 20. | Pa brofiad sydd gan eich sefydliad o gyflwyno'r math, maint ar raddfa hon o weithgarwch prosiect / digwyddiad? (hyd at 200 gair) | Dylid cyfeirio yma at enghreifftiau o brosiectau tebyg neu tebyg eu maint y mae eich sefydliad wedi eu cyflawni yn y gorffennol. |

**GWEITHGAREDD NEWYDD**

| | | |
|---|---|---|
| 21. | A ydych wedi derbyn cymorth grant i weithredu y math o brosiect / digwyddiad amlygi'r uchod yn y gorffennol? | ❑ Do. Rydym wedi derbyn arian yn y gorffennol<br>❑ Na. Nid ydym wedi derbyn arian am y math yma o brosiect / digwyddiad yn y gorffennol |

| | | |
|---|---|---|
| 22. | Os ydych wedi ateb "Do. Rydym wedi derbyn arian yn y gorffennol" gofynnwn i chi amlygu:<br><br>Sut mae gweithgaredd y prosiect / digwyddiad yn wahanol a sut mae yn cyfarch blaenoriaeth y gronfa i *'Gefnogi gweithgareddau newydd neu allu eich sefydliad i ddarparu gwasanaethau newydd / neu ddenu cynulleidfa a buddiolwyr newydd.'*<br><br>(hyd at 300 gair) | Eglurwch sut mae gweithgaredd eich prosiect / digwyddiad yn wanhaol ir gweithgaredd sydd wedi ei ariannu trwy grant yn y gorffennol.<br><br>Nodwch sut byddwch yn defnyddio'r grant i gefnogi gweithgareddau newydd neu allu eich sefydliad i ddarparu gwasanaethau newydd / neu ddenu cynulleidfa a buddiolwyr newydd. |

**YR IAITH GYMRAEG**

| | | |
|---|---|---|
| 23. | A oes gan eich sefydliad Bolisi neu Ddatganiad Iaith Gymraeg? | ❑ Oes.<br>❑ Nac oes.<br><br>Os nad oes, amlinellwch sut y byddwch yn defnyddio'r grant i sicrhau gwasanaethau dwyieithog i'r cyhoedd? Gall hyn gynnwys eich gwasanaethau (a chyfarfodydd) wyneb yn wyneb neu dros y ffôn, deunydd printiedig, arwyddion a thudalennau gwefan. |
| 24. | Sut mae eich prosiect / digwyddiad yn cyfrannu at flaenoriaeth 'Gwynedd Gymraeg' (Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28)<br>Sut y byddwch yn sicrhau eich bod yn rhoi pob cyfle posib i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned? | Dylech nodi yma sut mae eich cynllun yn cyd-fynd a Chynllun Gwynedd 2023-28. |

**SERO NET**

| | | |
|---|---|---|
| 25. | Sut mae'r cynnig yn cefnogi polisïau neu uchelgeisiau amgylcheddol ehangach Sero Net Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru? ( hyd at 150 gair) | Dylech ateb i'r cwestiwn hwn fod yn benodol i'r prosiect/digwyddiad yr ydych yn ceisio am arian ar ei gyfer. |

**CYDRADDOLDEB**

| | | |
|---|---|---|
| 26. | Disgrifiwch sut ydych chi wedi ystyried effeithiau cydraddoldeb eich cynnig, y grwpiau perthnasol a effeithir yn seiliedig ar y nodweddion gwarchodedig, ac unrhyw fesurau yr ydych yn eu | Dylech ateb i'r cwestiwn hwn fod yn benodol i'r prosiect/digwyddiad yr ydych yn ceisio am arian ar ei gyfer. |

| | | |
|---|---|---|
| | cynnig mewn ymateb i'r effeithiau hyn. (hyd at 150 gair) | |

**GWYBODAETH PELLACH**

| | | |
|---|---|---|
| 27. | A oes unrhyw agwedd o'r prosiect/digwyddiad yn cynnwys gweithgaredd masnachol? | ❑ Oes ❑ Nag oes<br><br>Nodwch os yw'r gweithgaredd a fydd yn cael ei ariannu drwy'r gronfa yma yn weithgaredd masnachol. |
| 28. | Os ydyw, eglurwch yn gryno beth yw'r weithgaredd masnachol. (hyd at 200 gair) | Os nodwch Ydi i gwestiwn 27 esboniwch beth yn union yw'r weithgaredd masnachol. |

**GWYBODAETH ARIANNOL**

| | | |
|---|---|---|
| 29. | Cyfanswm cost y Prosiect / Digwyddiad | Dylid nodi yma union gost y prosiect yn ei gyfanrwydd. |
| 30. | Cyfanswm y grant drwy'r gronfa yma gwneir cais amdano | Dylid nodi yma fain o arian drwy'r gronfa yma yr ydych yn ceisio amdano. |
| 31. | Ffynhonnell a Swm yr arian cyfatebol | Os ydych wedi sicrhau arian cyfatebol ar gyfer eich prosiect/digwyddiad, nodwch yma cyfanswm yr arian cyfatebol sydd wedi ei sicrhau ac o ble mae'r arian wedi ei sicrhau |
| 32. | Os ydych yn gofyn am 100% o gost eich prosiect / digwyddiad nodwch eich rhesymeg dros hynny. | Wrth ateb y cwestiwn ym dylech gyfeirio at werth am arian eich cynllun. |
| 33. | Sut ydych wedi / yn bwriadu caffael eich Prosiect / Digwyddiad? | Dylid nodi yma sut ydych wedi mynd allan am brisiau ar gyfer eich prosiect ac esbonio pam eich bod yn bwriadu defnyddio un cwmni dros y llall, gan ddangos y gwerth am arian. Yn ychwanegol i'r canllawiau rydym hefyd wedi darparu manylion ac ymarfer da mynd allan am brisiau ar gyfer eich prosiect/digwyddiad, ac rydym yn awgrymu eich yn eu darllen yn ofalus. Noder, os byddwch yn caffael eitem sengl sydd a gwerth uwch na £4,999.99 yna bydd angen cyflwyno 3 dyfynbris fel rhan or tystiolaeth wrth hawlio'r grant. |

Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

**CRYNODEB**

**BETH SYDD ANGEN EI GYFLWYNO GYDA'R CAIS?**

Rhaid i bob ymgeisydd gyflwyno'r canlynol:
Angenrheidiol;

- Ffurflen Gais
- Copi o Gyfansoddiad y Sefydliad wedi ei arwyddo a'i ddyddio
- Copïau o ddatganiad banc mwyaf diweddar y grŵp
- Tystiolaeth all gefnogi eich cais e.e. llythyr cefnogi, gwaith ymchwil
- Polisi Iaith Gymraeg
- Polisi Cydraddoldeb

Os yn berthnasol;

- Tystiolaeth o unrhyw gyfraniadau eraill tuag at y cynllun
- Cynllun Busnes neu wybodaeth addas arall sy'n dangos bod y cynllun yn hyfyw
- Tystiolaeth o ganiatâd cynllunio, neu dystiolaeth ysgrifenedig gan yr awdurdod perthnasol yn cadarnhau nad oes rhaid cael caniatâd cynllunio os yn berthnasol)
- Tystiolaeth Cymeradwyaeth Rheoliadau Adeiladu neu dystiolaeth ysgrifenedig gan yr awdurdod perthnasol yn cadarnhau nad oes angen cymeradwyaeth Rheoliadau Adeiladu (os yn berthnasol)